

## Catalyddion

CAL Cal dw i, a dyma Mags.

MAGS Fi sy'n cyflwyno pwnc heddiw – sef catalyddion. I helpu, mae angen i chi weld ein cyfnither Cath wnaethon ni warchod wythnos diwetha'. Ychydig wydden ni mai catalydd dynol ydy hi.

Mae catalyddion yn cael eu defnyddio i gyflymu adweithiau cemegol. Maen nhw'n cynyddu cyfradd yr adwaith heb newid yn gemegol eu hunain. Mae eu más yn aros yr un fath hefyd.

CAL Ychydig bach fel Cath fan 'ma.

MAGS Mae hi'n fach, ond yn gryf – hefyd fel catalydd. Dim ond mymryn bach o gatalydd sydd ei angen i gynyddu cyfradd adwaith rhwng yr adweithyddion.

CAL Cyflymder sy'n cyfrif, sy'n dod â ni at y ceir bach, neu'r **dodgems**.

MAGS Rhaid i ronynnau o adweithyddion wrthdaro efo digon o egni er mwyn i'r adwaith ddigwydd. Mae'r lleiafswm egni 'ma'n cael ei alw'n egni actifadu.

Mae catalyddion yn gostwng yr egni actifadu drwy ddod â gronynnau at ei gilydd a'u gosod nhw ar y llwybr cywir i wrthdrawiad fod yn llwyddiannus.

CAL Mae mwy o wrthdrawiadau llwyddiannus yn golygu bod y gyfradd adwaith yn cynyddu.

MAGS Mae catalyddion gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer adweithiau gwahanol. Haearn ydy'r catalydd ym mhroses Haber, a nicel ydy'r catalydd mewn hydrogeniad alcenau – sef masgynhyrchu margarîn.

Ond, does dim catalydd addas ar gyfer pob adwaith.

Dydy'r catalydd ddim yn cael ei ddefnyddio i gyd, ond mae'n mynd yn llai effeithiol dros amser – fel hon. Mae amhureddau'n effeithio ar gatalydd, felly rhaid ei newid yn rheolaidd.

CAL Yn anffodus, fedra' i ddim newid fy nghyfnither i.